




Prifysgol Cymru
Y Drindod Dewi Sant
University of Wales
Trinity Saint David



Cod Ymarfer
Dyletswydd PREVENT
Siaradwyr a
Digwyddiadau Allanol

CYNNWYS

CYNNWYS	1
1. Cyflwyniad	2
2. Diben.....	3
3. Cwmpas	3
4. Diffiniadau	3
4. Polisi	3
5.1 Cam Un	4
5.2 Cam Dau.....	5
6. Monitro ac Adolygu.....	6
7. Camddefnyddio'r Polisi	6
8. Cysylltiadau â pholisïau / gweithdrefnau eraill	6
<i>Cymeradwyaeth</i>	7



1. Cyflwyniad

- 1.1 O dan Ddeddf Gwrthderfysgaeth a Diogelwch 2015 mae gofyn i'r Brifysgol gydymffurfio â chyfarwyddyd Dyletswydd PREVENT a gyhoeddwyd gan yr Ysgrifennydd Cartref. O dan adran 29 o'r Ddeddf, rhaid i'r Brifysgol roi sylw dyledus i'r angen i atal pobl rhag cael eu denu i derfysgaeth. Mae'r canllawiau'n cynnwys adran sy'n ymwneud â chynnal siaradwyr allanol yn nigwyddiadau'r Brifysgol.
- 1.2 Yn aml, mae grwpiau a sefydliadau terfysgol yn defnyddio ideoleg eithafol a ddatblygwyd gan grwpiau eithafol. Mewn ymateb i hyn, mae'r Llywodraeth wedi diffinio eithafion yn strategaeth PREVENT yn "wrthwynebiad llafar neu weithredol i werthoedd sylfaenol Prydain gan gynnwys democratiaeth, cyfraith a threfn, rhyddid unigol, parch at ein gilydd a goddefgarwch o wahanol grefyddau a chredoau". O ganlyniad, nod deddfwriaeth PREVENT yw lleihau'r bygythiad o derfysgaeth i'r DU drwy gymryd camau i atal pobl rhag dod yn derfysgwyr neu gefnogi terfysgaeth.
- 1.3 Mae ein dull gweithredu yn bennaf yn un o ddiogelu lles ein myfyrwyr a'n staff. Byddwn hefyd yn sicrhau bod y ddyletswydd yn cael ei chydbwysio â'n hymrwymiad sylfaenol i ryddid academiaidd a rhyddid barn, ynghyd â deddfwriaeth allweddol arall megis y Ddeddf Cydraddoldeb a'r Ddeddf Hawliau Dynol. Mae dadlau'n rhydd ac yn agored am bynciau sy'n aml yn ddadleuol yn elfen allweddol o fywyd y Brifysgol, a byddwn bob amser yn ceisio caniatáu i ddigwyddiadau fynd rhagddynt ar yr amod eu bod o fewn y gyfraith ac nad ydynt yn creu unrhyw risg.
- 1.4 Bydd y Brifysgol yn ystyried a yw'r safbwyntiau a fynegir neu sy'n debygol o gael eu mynegi gan bob siaradwr posibl, yn safbwyntiau eithafol a rennir gan grwpiau terfysgol neu sy'n creu risg o ddenu pobl i derfysgaeth, a bydd yn cymryd camau priodol i liniaru'r risg gan y mae'r siaradwyr hyn.

2. Diben

- 2.1 Cyflwynwyd y Cod Ymarfer hwn i amlinellu cydymffurfiaeth y Brifysgol â gofynion Deddf Gwrthderfysgaeth a Diogelwch 2015 a'r canllawiau cysylltiedig.
- 2.2 Mae canllawiau'r Swyddfa Gartref ar gyfer Sefydliadau Addysg Uwch yn cynnwys yr adran ddilynol a adlewyrchir ym Mholisi Dyletswydd PREVENT Y Drindod Dewi Sant:
 - Siaradwyr a Digwyddiadau Allanol
 - Monitro ac adolygu cyfleusterau
- 2.3 Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau ynghylch gweithredu unrhyw agweddau ar y Cod Ymarfer, i ddechrau, at y Swyddog Arweiniol i gael ymateb.



3. Cwmpas

- 3.1 Defnyddir y Cod Ymarfer hwn ar holl gampysau'r Brifysgol; Llanbedr Pont Steffan, Caerfyrddin, Abertawe, Caerdydd, Birmingham a Llundain. Yn ogystal, mae'n cynnwys unrhyw fangre nad yw'n eiddo i'r Brifysgol neu sy'n cael ei rheoli ganddi ond sy'n cael ei defnyddio at ddibenion y Brifysgol
- 3.2 Bydd y Cod Ymarfer hwn yn berthnasol i bob aelod nad yw'n aelod o'r Brifysgol a wahoddir i annerch staff, myfyrwyr, gwesteion neu ymwelwyr mewn unrhyw ddigwyddiad a drefnir gan Aelodau'r Drindod Dewi Sant o dan frand neu deitl Y Drindod Dewi Sant, ni waeth beth fo'r lleoliad.
- 3.3 Mae angen i sefydliadau partner cydweithredol ddatblygu a gweithredu eu polisiau, eu protocolau a'u canllawiau PREVENT penodol eu hunain fel y bo'n briodol, gyda chanllawiau gan yr Arweinydd PREVENT os bydd angen.
- 3.4 Gellir diwygio'r Cod Ymarfer hwn i adlewyrchu newidiadau yn neddfwriaeth a pholisi Llywodraeth y DU neu Lywodraeth Cymru.

4. Diffiniadau

- 4.1 "PREVENT" – yr agenda wrth-radcaleiddio sydd wedi'i hymgorffori yn y Ddeddf Gwrthderfysgaeth ac a elwir yn PREVENT yn y polisi hwn.
- 4.2 "Radcaleiddio" – Proses lle daw unigolyn i fabwysiadu safbwyntiau gwleidyddol, cymdeithasol neu grefyddol eithafol, gan arwain at bryder y byddant yn gweithredu'n anghyfreithlon.
- 4.3 "Eithafiaeth" (PREVENT Llywodraeth y DU) - Gwrthwynebiad llafar neu weithredol i werthoedd sylfaenol Prydain gan gynnwys democratiaeth, cyfraith a threfn, rhyddid unigol, parch a goddefgarwch o wahanol grefyddau a chredoau a galw am farwolaeth neu anaf i aelodau'r Lluoedd Arfog.
- 4.4 "Siaradwr Allanol"- Unigolyn nad yw'n aelod o'r Brifysgol, neu a gyflogir yn uniongyrchol gan y Brifysgol, neu sy'n gysylltiedig yn ffurfiol â'r Brifysgol. Mae hyn yn cynnwys siaradwyr academiaidd, siaradwyr adrannol, y rhai a wahoddir i ddigwyddiadau a gynhelir gan y Brifysgol ar safle'r Brifysgol ac i unrhyw ddigwyddiad y mae'r Brifysgol yn gysylltiedig ag e, sydd wedi'i ariannu neu ei frandio ond sy'n digwydd ar neu oddi ar y campws neu ar-lein.
- 4.5 "Digwyddiadau" - Unrhyw ddigwyddiad, o unrhyw natur, sy'n cael ei hysbysebu neu ei farchnata o dan nawdd Y Drindod Dewi Sant neu grŵp Y Drindod Dewi Sant neu sy'n digwydd ar unrhyw safle sy'n eiddo i'r Drindod Dewi Sant neu sy'n cael ei reoli ganddo.



5. Polisi

- 5.1.1 Rhaid i'r Brifysgol gael gwybod am yr holl ddigwyddiadau arfaethedig a drefnir gan ei staff a'i myfyrwyr lle gwahoddir unigolion nad ydynt yn aelodau o'r Brifysgol, neu a gyflogir yn uniongyrchol gan neu sy'n gysylltiedig yn ffurfiol â'r Brifysgol, i annerch cynulleidfa o dan deitl Y Drindod Dewi Sant.
- 5.1.2 Mae'r unigolion yn cynnwys siaradwyr academiaidd, siaradwyr adrannol, y rhai a wahoddir i ddigwyddiadau a gynhelir gan y Brifysgol, ar safleoedd prifysgol ac mewn unrhyw ddigwyddiad o'r fath y mae'r Brifysgol yn gysylltiedig ag e, yn ei ariannu neu ei frandio ond sy'n digwydd oddi ar y campws, neu ar-lein. Gall y gynulleidfa fod yn staff, myfyrwyr, llywodraethwyr, gwesteion a/neu ymwelwyr.
- 5.1.3 Rhaid cyflwyno hysbysiad o ddigwyddiadau arfaethedig, yn bersonol ac ar-lein, o leiaf 10 diwrnod gwaith cyn y bydd y digwyddiad yn cael ei gynnal. O dan amgylchiadau eithriadol, gellir byrhau'r amserlen hon er mwyn manteisio ar gyfle sydd ar gael ar fyr rybudd, ond ym mhob achos rhaid dilyn y weithdrefn isod yn llawn.
- 5.1.4 Mae dau gam i'r broses ar gyfer cyflwyno hysbysiad am ddigwyddiad:

5.2 Cam Un

- 5.2.1 Cam un yw'r cais cychwynol am ddigwyddiad a wneir ar lefel adrannol neu Athrofa ac a ystyrir, fel arfer, gan bennaeth perthnasol yr adran neu'r enwebai (yr 'aelod staff enwebedig'). Mae hyn yn caniatáu lefel o reolaeth a chyfrifoldeb lleol ac yn caniatáu i'r cais gael ei ystyried yn unol ag angen a gwybodaeth leol. Disgwylir y bydd y rhan fwyaf o'r digwyddiadau'n cael eu cymeradwyo ar y lefel hon.
- 5.2.2 Wrth wneud cais, rhaid i'r aelod o'r staff neu'r myfyriwr sy'n gwneud y cais sicrhau bod y trefniadau arfaethedig yn cydymffurfio ag amcan y Cod Ymarfer hwn, ynghyd â Pholisïau a gweithdrefnau perthnasol Y Drindod Dewi Sant gan gynnwys Asesu Risg, Cydraddoldeb a Chynwysoldeb a Siarter y Myfyrwyr.
- 5.2.3 Wrth wneud penderfyniad dylai'r pennaeth adran perthnasol ystyried y canlynol:
- Cefndir y cais
 - A oes unrhyw wybodaeth hysbys am y siaradwr
 - Y risgiau wrth ganiatáu i'r digwyddiad fynd yn ei flaen
- 5.2.4 Yn achos digwyddiadau ar-lein, dylid cadw at yr arfer gorau canlynol fel arfer:
- Bod digwyddiad yn defnyddio llwyfan sefydledig a gefnogir gan Y Drindod Dewi Sant megis Microsoft Teams
 - Defnyddio proses lobïo neu dderbyn i hwyluso a rheoli derbyniadau
 - Recordio'r digwyddiad
 - Dylai unrhyw fath o gyfleuster sgwrsio naill ai gael ei analluogi neu ei reoli gan staff, er mwyn osgoi sylwadau amhriodol, aflonyddu neu darfu arall.



5.2.5 Os yw'r digwyddiad yn cynnwys siaradwr ar-lein nad yw fel arfer **wedi'i leoli** yn y DU, **rhaid** cyfeirio'r mater at Swyddog Arweiniol PREVENT y Brifysgol i'w ystyried.

5.2.6 Ar yr amod nad oes unrhyw faterion neu bryderon andwyol, dylid caniatáu i'r digwyddiad gael ei gynnal. Dylai'r adran neu'r Athrofa gadw dogfennau sy'n dangos tystiolaeth o'r broses o wneud penderfyniadau at ddibenion archwilio.

5.3 Cam Dau

5.3.1 Os caiff risgiau eu nodi neu os codir pryderon, dylid trosglwyddo'r cais i Swyddog Arweiniol PREVENT y Brifysgol a fydd yn ystyried y cais ymhellach. Os nad yw'r pryderon yn ymwneud yn benodol â PREVENT, gall y Swyddog Arweiniol ymgynghori â chydweithwyr eraill fel y bo'n briodol.

5.3.2 Ym mhob achos bydd y cais yn cael ei graffu'n agosach ac os bydd angen, ceir rhagor o wybodaeth gan y trefnwyr. Yn rhan o'r broses honno, efallai y bydd angen cynnwys mesurau lliniaru risg a all gynnwys:

- Presenoldeb drwy wahoddiad yn unig
- Penodi Cadeirydd profiadol neu hwylusydd digwyddiadau
- Arsyllwyr Niwtral

5.3.3 Ym mhobachos o'r fath, bydd Swyddog Arweiniol PREVENT yn gwneud ei argymhelliad i drefnydd y digwyddiad ac Uwch Reolwyr yr Athrofa neu'r adran, gan nodi unrhyw fesurau ychwanegol yr ystyrir eu bod yn angenrheidiol. Unwaith y cytunir ar y mesurau, caniateir i'r digwyddiad barhau a threfnwyr y digwyddiad sy'n gyfrifol am sicrhau bod y mesurau'n cael eu defnyddio.

5.3.4 Os codir pryderon ac na ellir dod i gytundeb mewn perthynas â datrys problemau a bod Asesiad Risg anffafriol yn parhau, rhoddir ystyriaeth i wahardd y digwyddiad. Mewn achosion o'r fath ni chaniateir cynnal y digwyddiad ar unrhyw safle Prifysgol nac ar unrhyw safle arall o dan deitl Y Drindod Dewi Sant. Y cam hwn yw'r dewis olaf a dim ond i ddiogelu'r Brifysgol, ei staff a'i myfyrwyr y caiff ei gymryd.

5.3.5 Os hysbysir Trefnydd y Digwyddiad o ganlyniad i'r Cod Ymarfer hwn na ddylid cynnal y siaradwr a enwir na'r digwyddiad enwebedig, gallant apelio at Ysgrifennydd y Brifysgol.

5.3.6 Rhaid cyflwyno'r Apêl yn ysgrifenedig o fewn 5 diwrnod gwaith i'r hysbysiad na ddylai'r digwyddiad fynd yn ei flaen. Dylid e-bostio'r apêl at Ysgrifennydd y Brifysgol, governance@pcydd.ac.uk



6. Monitro ac Adolygu

- 6.1 CCAUC sy'n monitro ymateb y Brifysgol yn allanol i weithredu'r Canllawiau PREVENT a hynny ar ran Llywodraeth Cymru.
- 6.2 Goruchwylir diogelwch staff, myfyrwyr ac ymwelwyr y Brifysgol gan Gorff Llywodraethu'r Drindod Dewi Sant, Cyngor y Brifysgol, sy'n darparu arweinyddiaeth strategol a goruchwyliaeth o effeithiolrwydd y Polisi. Mae'r Cyngor yn adolygu cynnydd o bryd i'w gilydd o ran y Polisi ac yn cynnal goruchwyliaeth o'r Asesiad Risg a'r Cynllun Gweithredu cysylltiedig. Mae'r Cyngor yn gyfrifol am sicrhau bod y Brifysgol yn cymryd rhan yng ngweithgarwch monitro blynyddol CCAUC mewn perthynas â PREVENT ac mae Cadeirydd y Cyngor yn gyfrifol am gadarnhau cydymffurfiaeth y Brifysgol yn flynyddol.
- 6.3 Fforwm Diogelu'r Brifysgol sy'n gyfrifol am weithredu'r Polisi ac mae'n cynyddu gwybodaeth a manylion perthnasol i Bwyllgor Profiad Myfyrwyr a Bwrdd Arweinyddiaeth Weithredol y Brifysgol yn ôl y gofyn.
- 6.4 Swyddog Arweiniol PREVENT enwebedig y Brifysgol fydd yn cydlynu'r gweithgarwch gweithredol o ddydd i ddydd mewn perthynas â'r ddyletswydd PREVENT. Bydd y Swyddog Arweiniol yn gweithio o dan gyfarwyddyd y Fforwm Diogelu.
- 6.5 Bydd holl staff, myfyrwyr, contractwyr ac ymwelwyr y Brifysgol yn gyfrifol am gydymffurfio â gofynion pob agwedd ar y Polisi hwn.

7. Camddefnyddio'r Polisi

- 7.1 Mae'n ofynnol i Brifysgol Cymru Y Drindod Dewi Sant gydymffurfio â gofynion Deddf Gwrthderfysgaeth a Diogelwch 2015, o ran sicrhau nad yw ein myfyrwyr yn agored i ideoleg eithafol a bod gan y Brifysgol weithdrefnau ar waith i fonitro ac ymateb i unrhyw bryderon sy'n dod i'r amlwg.
- 7.2 Gallai ymateb yn effeithiol arwain at osod 'Mesurau Arbennig' ychwanegol ar y Brifysgol gan ein Corff Monitro.
- 7.3 Gellir cymryd camau disgyblu yn erbyn unrhyw fyfyrwr neu aelod o'r staff sy'n methu â chydymffurfio'n fwriadol â'r gweithdrefnau a nodir yn y Polisi hwn.

8. Cysylltiadau â pholisïau / gweithdrefnau eraill

- 8.1 Mae'r Brifysgol wedi mabwysiadu dull cyfannol o ymdrin â'i chyfrifoldebau PREVENT ac mae nifer o bolisïau sefydliadol sy'n rhyng-gysylltiedig, gan gynnwys:
 - Polisi Disgyblu Myfyrwyr (Camymddwyn Anacademaidd)
 - Polisi Diogelu
 - Polisi Cymorth ar gyfer Astudio
 - Polisi Addasrwydd i Ymarfer
 - Polisi Defnydd Derbyniol Technoleg Gwybodaeth a Systemau
 - Cynllun Cydraddoldeb Strategol
 - Cod Ymarfer Siaradwyr a Digwyddiadau Allanol



Awdur(on) y polisi:

..... Teitl y Swydd.....

..... Teitl y Swydd.....

Rheoli fersiynau dogfennau

Rhif Fersiwn:	Rheswm dros newid:	Awdur:	Dyddiad y newid:
0.1	Ymateb i Ganllawiau ar Ddyletswydd PREVENT Addysg Uwch	AT/RD	26 Ebrill 2021
0.2	Cymeradwyaeth yn yr Uwch Gyngor Gweithredol	AT/RD	9 Mai 2021

Statws presennol Polisi: cymeradwywyd*

A yw'r Polisi'n berthnasol i: AU

Dyddiad cadarnhau: 9/5/2021

Dyddiad effeithiol o: 9/5/2021

Dyddiad adolygu polisi: 9/5/2022

I'w gyhoeddi: ar wefan Y Drindod Dewi Sant

*Dileu fel y bo'n briodol

** mewnosoder pan fydd ar gael

Cymeradwyaeth

Caiff y polisi ei ystyried a'i gymeradwyo'n ffurfiol yn unol â Chylch Gorchwyl y Pwyllgor a amlinellir yn y Llawlyfr Ansawdd Academaidd.

Os yw'r polisi'n effeithio ar staff, dylid gofyn am gyngor gan AD o'r cychwyn cyntaf i ganfod a oes angen ymgynghori yn y Cydbwyllgor Ymgynghori. Bydd AD hefyd yn rhoi cyngor ar y cam mwyaf priodol i ymgynghori â'r Cydbwyllgor Ymgynghori ac ynghylch a oes angen cymeradwyaeth gan y Cyngor

Rhaid i'r HOLL bolisiau a gyflwynir i'w cymeradwyo gyd-fynd â'r polisiau a gyflwynir i'w cymeradwyo:

- *Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb.*
- *Asesiad o'r Effaith Sefydliadol*



- *Asesiad o'r Effaith ar Breifatrwydd*

Cyn ei gyflwyno i'r pwyllgor, gofynnir i awduron ymgynghori â'r Tîm Polisi a Chynllunio a fydd yn gwirio bod y ddogfen yn cydymffurfio â gofynion y Brifysgol. Bydd y Tîm Polisi a Chynllunio yn cwblhau'r adran isod.

I'w gwblhau gan y Tîm Polisi a Chynllunio

Ticiwch i gadarnhau'r canlynol:

Mae Asesiad Effaith sefydliadol wedi'i gwblhau

Mae AEA wedi'i gwblhau

Mae AEB wedi'i gwblhau

Materion y mae angen i'r pwyllgor cymeradwyo eu hystyried:

